O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2008 Rhif 1739 (Cy.171)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2008

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003 (O.S. 2003/3231 (Cy.311)) ("Rheoliadau 2003") yn gymwys i ysgolion a gynhelir gan awdurdodau addysg lleol ac i ysgolion arbennig (os cynhelir hwy felly ai peidio). Maent yn darparu (ymysg pethau eraill) bod diwrnod ysgol sydd fel arfer i'w rannu'n ddwy sesiwn (gydag egwyl yn y canol), a bod ysgolion (heblaw ysgolion meithrin) yn cyfarfod am o leiaf 380 o sesiynau yn ystod unrhyw flwyddyn ysgol.

Mae rheoliad 5 o Reoliadau 2003 (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2006/1262 (Cy.119)) yn darparu bod hyd at bedair sesiwn ym mhob un o flynyddoedd ysgol 2006/7 a 2007/8 yn cyfrif fel sesiynau pan gyfarfu'r ysgol os cawsant eu neilltuo i ddarparu ffurfiau penodol o hyfforddiant.

Mae'r Rheoliadau hyn yn amnewid rheoliad 5 newydd yn Rheoliadau 2003 sydd, yn fras, yn darparu bod hyd at bedair sesiwn ym mhob un o flynyddoedd ysgol 2008/9 a 2009/10 yn cyfrif fel sesiynau pan gyfarfu'r ysgol os cawsant eu neilltuo i ddarparu hyfforddiant, neu baratoi a chynllunio, ar gyfer y canlynol—

- cyflwyno'r cyfnod sylfaen,
- paratoi a gweithredu cynlluniau a anelir at hwyluso disgyblion i bontio o'r cyfnod sylfaen ac o un cyfnod allweddol i gyfnod allweddol arall, a rhwng ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd (gan gynnwys, yn yr ail achos, y cynlluniau statudol y mae angen eu llunio o dan adran 198 o Ddeddf Addysg 2002),

- newidiadau sydd i ddod yn y Cwricwlwm Cenedlaethol, a
- cynlluniau Gweinidogion Cymru ar gyfer ymestyn opsiynau dysgu ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2008 Rhif 1739 (Cy. 171)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2008

Gwnaed *1 Gorffennaf 2008*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru

3 Gorffennaf 2008

Yn dod i rym *1 Awst 2008*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 551 a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2008 a deuant i rym ar 1 Awst 2008.

Diwygio Rheoliadau

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003(**3**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3, yn y lle priodol yn nhrefn yr wyddor mewnosoder—

(**1**) 1996 p.56. Mewnosodwyd adran 551(1A) gan baragraff 39 o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 1997 (p.44), a diwygiwyd adran 551(2) gan baragraff 166 o Atodlen 30 ac Atodlen 31 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31). I gael ystyr "prescribed" a "regulations" *gweler* adran 579(1).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i'r Cynulliad Cenedlaethol gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) O.S. 2003/3231 (Cy.311).

"mae "cyfnod sylfaen" ("*foundation stage*") i'w ddehongli yn unol ag adran 102 o Ddeddf Addysg 2002(**1**)".

(3) Yn rheoliad 5 yn lle paragraff (1) rhodder—

"(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae'r paragraff hwn yn gymwys i unrhyw sesiwn ysgol sy'n dod o fewn y blynyddoedd ysgol 2008-2009 a 2009-2010 a gaiff ei neilltuo (yn llwyr neu yn bennaf) i ddarparu hyfforddiant (gan gynnwys hyfforddiant a fynychir gan staff sy'n addysgu a staff nad yw'n addysgu a hyfforddiant a gynhelir ar y cyd ag ysgolion eraill), neu baratoi a chynllunio, ar gyfer y canlynol—

(a) cyflwyno'r cyfnod sylfaen;

(b) gweithredu cynlluniau a anelir at hwyluso disgyblion i bontio o'r cyfnod sylfaen i'r ail gyfnod allweddol ac o un cyfnod allweddol i'r un nesaf neu o ysgol gynradd i ysgol uwchradd (gan gynnwys cynlluniau o'r fath y cyfeirir atynt yn adran 198 o Ddeddf Addysg 2002 os yw Gweinidogion Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu'r ysgol gymryd rhan mewn llunio cynllun o'r fath neu os yw'r corff llywodraethu yn disgwyl hynny);

(c) y newidiadau arfaethedig i Gwricwlwm Cenedlaethol Cymru;

(ch) gweithredu'r cynigion sydd yng nghylchlythyr 37/2004 o dan y teitl "Llwybrau Dysgu 14–19" ar gyfer ymestyn ystod yr opsiynau dysgu sydd ar gael i bobl ifanc 14-19 oed (gan gynnwys datblygu rôl Anogwr Dysgu i gynorthwyo gyda dysgu pobl ifanc, a datblygu Cynllun Llwybrau Dysgu cynhwysfawr)."

Jane Hutt

Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru.

1 Gorffennaf 2008

(**1**) 2002 p.32. Mae O.S. 1732/2008 (Cy.169) yn pennu beth yw cyfnod y cyfnod sylfaen.